| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | Pwyllgor Cynllunio |
| Dyddiad y cyfarfod: | 17 Hydref 2018 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy / Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai |
| Awdur yr Adroddiad: | Karsten Bruβk, Swyddog Cynllunio Strategol |
| Teitl: | Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021: Adroddiad Monitro Blynyddol Drafft 2018 |

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Cyhoeddiad arfaethedig Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021: Adroddiad Monitro Blynyddol 2018 a chyflwyno'r ddogfen i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2018.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Rhoi gwybod i'r Aelodau am gynnwys Adroddiad Monitro Blynyddol 2018 y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl 2018, Atodiad 1.

4. **Manylion yr Adroddiad**

Dan rwymedigaethau adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, fel y'i diwygiwyd, ac adran 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i lunio adroddiad monitro blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn a'i gyhoeddi ar ei wefan.

Mae monitro'n rhan hanfodol o adborth o fewn y broses o lunio polisïau. Dylai nodi'r heriau allweddol, y cyfleoedd a'r ffyrdd posib' ymlaen i adolygu ac

addasu polisïau lleol. Mae'r broses yn offeryn i fesur perthnasedd a llwyddiant y CDLl a nodi unrhyw newid angenrheidiol. Mae hefyd yn rhoi adborth ar y graddau mae strategaeth a pholisïau'r CDLl yn cael eu darparu a'u cyflawni.

Cyhoeddodd y Cyngor Adroddiad Adolygu'r CDLl 2017 terfynol yn Rhagfyr 2017 a chymeradwyodd Llywodraeth Cymru'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych nesaf ym Mai 2018. Mae'r ddwy ddogfen yn hanfodol er mwyn dechrau gweithio ar y Cynllun newydd. Mae Adroddiad Adolygu'r CDLl a'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn dystiolaeth hanfodol i siapio'r CDLl nesaf a chyfrannu tuag at ffurfio polisi lleol.

Dyma'r pedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol a baratowyd gan Gyngor Sir Ddinbych, ac mae'n ychwanegu at adroddiadau monitro blynyddol a gyhoeddwyd yn flaenorol, mewn perthynas â pherfformiad polisi lleol a chasglu tystiolaeth hanfodol ar gyfer adolygu'r CDLl gyda hyn. Gellir dod o hyd i Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol ar wefan CDLl CSDd: www.denbighshire.gov.uk/cdll

Mae'r adroddiad hwn yn trafod polisïau lleol nad ydynt yn perfformio yn ôl y disgwyl neu lle mae newidiadau cyfreithiol yn gorbwyso dangosyddion a chyrhaeddnodau a ddiffiniwyd yn flaenorol. Mae wedi dod i'r amlwg dros y pedair blynedd diwethaf ers mabwysiadu'r CDLl, nad yw tri phrif faes canlynol y polisi lleol yn perfformio cystal â'r disgwyl ac yn destun adolygiad fel rhan o'r CDLl nesaf.

- Strategaeth Twf y CDLl – methiant i gyflawni'r nifer o anheddau fel y nodwyd ym mhennod 5 y CDLl; yn gysylltiedig â gofyniad Nodyn Cyngor Technegol 1: 'Cyflenwad tir ar gyfer tai am 5 mlynedd';
- Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr – mynd i'r afael â'r angen a nodwyd yn 'Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr'; a
- Rheoli Gwastraff a Mwynau – mae newidiadau deddfwriaethol a rheoleiddio yn golygu bod rhaid diwygio polisïau lleol a dangosyddion monitro cysylltiedig.

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am y tri thestun, yn cynnwys gwybodaeth gefndir a goblygiadau ar gyfer polisïau lleol cysylltiedig yn Adroddiad Adolygu'r CDLl a Phapurau Gwybodaeth cysylltiedig (Creu Cymunedau Cynaliadwy a Hybu Economi Gynaliadwy).

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen penderfyniad ar yr eitem hon. Fodd bynnag, mae'r CDLl yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol canlynol drwy nodi lle a sut y bydd datblygiadau newydd yn cael eu cynnal yn y Sir hyd at 2021:

- Datblygu'r economi leol;
- Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da; a
- Moderneiddio'r Cyngor i sicrhau effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gost am gymryd sylw o gynnwys yr adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho Adroddiad yr Asesiad o Effaith ar Les gyflawn oddi ar y wefan, a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gynnal am nad yw'r adroddiad yn ceisio penderfyniad ar bolisi, strategaeth, trefn waith na rhaglen y Cyngor. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn cynnwys data ystadegol sy'n amlygu perfformiad y CDLl.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Trafodwyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol Drafft yng nghyfarfod y Grŵp Cynllunio Strategol ar 30 Gorffennaf 2018, a'i rannu gyda holl Aelodau fel rhan o'r papurau cyfarfod.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ni cheisiwyd am Ddatganiad y Prif Swyddog Cyllid oherwydd natur y ddogfen a'r penderfyniad.

10. **Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Does dim risgiau.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'r ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol wedi ei hamlinellu yn Adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.